**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Ardal Gogledd Sir Fynwy held at Gilwern Community Centre, Common Road, Gilwern, NP7 0DS on Dydd Mercher, 25ain Medi, 2019 at 1.00 pm**

**PRESENT:** Cynghorydd Sirol : R. Harris, S.B. Jones, P. Jordan, M.Lane, M. Powell, J.Pratt, T.Thomas, S. Woodhouse

T. Konieczny, G. Nelmes, G. Thomas

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Matthew Gatehouse | Pennaeth Polisi a Llywodraethiant |
| Richard Williams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**APOLOGIES:**

Cynghorydd Sirol: M.Groucutt, G. Howard, D. Jones, S. Jones, K. Williams

O. Dodd

1. **Ethol Cadeirydd.**

Etholwyd y Cynghorydd Sirol G. Powell yn Gadeirydd.

2. **Penodi Is-gadeirydd**

Fe wnaethom ethol Cynghorydd Sirol J. Pratt fel Is-gadeirydd

3. **Datganiadau Buddiannau**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

4. **Fforwm Agored Cyhoeddus**

Gwahoddodd y Cadeirydd aelodau o'r cyhoedd a oedd yn bresennol i ofyn cwestiynau i'r Pwyllgor Ardal, neu i godi materion sy'n peri pryder:

**Y Fenni yn ei Blodau**

Hysbysodd cynrychiolydd o Gyngor Tref y Fenni y Pwyllgor Ardal bod yn ofynnol i'r contractwr presennol sy'n dyfrio'r planhigion yn Nhref y Fenni ddod â dŵr o Frynbuga, gan nad oes allfeydd dŵr ar gael yn y dref.

Dywedodd y Pennaeth Polisi a Llywodraethu wrth y Pwyllgor Ardal y byddai'n cysylltu â'r Adran Ystadau a Chyngor Tref y Fenni gyda'r bwriad o ganfod allanfa ddŵr briodol, wrth symud ymlaen.

5. **Cyflymu Cymru 2 - Diweddariad Cyngor Sir Fynwy.**

Cawsom adroddiad diweddaru ynghylch Cyflymu Cymru 2 o fewn Sir Fynwy.

Wrth wneud hynny, nodwyd y canlynol:

- Roedd cysylltedd band eang gwael o hyd mewn rhai ardaloedd gwledig yn y Sir.

- Yn y cyfamser, mae grantiau ar gael drwy gynllun Allwedd Band Eang Cymru Llywodraeth Cymru i unigolion ariannu, neu ran o ariannu, costau gosod cysylltiadau band eang newydd i'w cartrefi neu fusnesau.

**Penderfynwyd y dylid gofyn i'r Aelod Cabinet ddarparu i'r Pwyllgor Ardal nifer y bobl sydd wedi gwneud cais am y grant hwn o fewn Sir Fynwy.**

**6. <u>Adroddiad cynnydd gan Dîm y Fenni.</u>**

Derbyniwyd adroddiad gan Dîm y Fenni ar y cynnydd hyd yn hyn. Wrth wneud hynny, cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â:

- Yr Amgylchfyd Cyhoeddus a Rheoli Traffig.
- Neuadd y Dref.
- Ysgol newydd Brenin Harri VIII.
- Y Cynllun Datblygu Lleol
- Siop Aldi.
- Parcio Ceir
- Cynllunio Digwyddiadau.
- Cynnwys yr Amgylchfyd Cyhoeddus yn y dyfodol.

Ar ôl derbyn yr adroddiad, nodwyd y pwyntiau a ganlyn:

- Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cytuno eto ar ddatrysiad i'r arhosfan bysiau sydd ei angen yn Heol y Parc ger Tesco. Er mai mater i Lywodraeth Cymru yw hwn, roedd Peiriannydd Grŵp Priffyrdd Cyngor Sir Fynwy yn cyfarfod â chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru. Byddai'r Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am Seilwaith a Gwasanaethau Cymdogaeth yn cysylltu â swyddogion Priffyrdd a Llywodraeth Cymru gyda'r bwriad o fynd i'r afael â'r mater hwn.

- Mynegwyd pryder ynghylch yr arwydd dim troi i'r chwith ym mhen Stryd Baker o Heol y Tywysog, gan ei fod yn atal mynediad i Stryd Frogmore ar gyfer cerbydau ac, yn ymarferol, mae'r arwydd yn cael ei anwybyddu. Nodwyd bod safbwyntiau lleol yn amrywio o ran yr angen am yr arwydd. Dywedodd Aelod o'r Pwyllgor Ardal ei bod wedi gofyn am gyfarfod â'r Rheolwr Diogelwch Priffyrdd i drafod y mater hwn ymhellach.

- Mae angen i'r Adran Drwyddedu sicrhau ei bod yn rheoli'r defnydd o ofod stryd ar Stryd Frogmore.

- Gallai meintiau bysiau fod yn broblem ar lwybr Tredegar i'r Fenni, gan fod y bws mwy o Dredegar yn cael ei newid i fws llai o faint pan fydd yn cyrraedd Brynmawr, gan arwain at achlysuron lle mae diffyg seddi ar gael ar ôl iddo adael Brynmawr. Nodwyd bod Stagecoach yn aros nes i'r gwaith ffordd yn yr ardal honno gael ei gwblhau cyn iddo fynd i'r afael â'r mater hwn.

- Mae ail-ddatblygu Neuadd y Dref y tu ôl i amserlen oherwydd oedi i'r pyst mesanîn. Bydd gan y Llyfrgell fwy o lyfrau ar gael a lle llawr mwy. Bydd peiriannau bibliotheca awtomataidd ar gael ar ddau lawr yr adeilad i ddarparu ar gyfer dychwelyd llyfrau'r llyfrgell. Mae Cyfeillion Llyfrgell y Fenni wedi cwrdd â'r datblygwyr ac wedi rhoi mewnbwn i'r datblygiad.

- Mae siop arfaethedig Aldi ar y cam cyn ymgeisio. Roedd Cyngor Tref y Fenni wedi bod yn feirniadol o ddyluniad gwreiddiol y siop a'r gobaith oedd y byddai'r datblygwr yn ystyried yr argymhellion a wnaed gan y Cyngor Tref mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig.

- Mae problem gyda'r goleuadau traffig sy'n rheoli allanfa maes parcio Fairfield. Dywedodd yr Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am Seilwaith a Gwasanaethau Cymdogaeth ei bod wedi cysylltu â'r Adran Briffyrdd ynghylch y mater hwn a'i bod yn aros am ymateb.

**Penderfynwyd y dylid darparu diweddariad ar y cynnydd o ran adnewyddu Hyb y Fenni yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ardal.**

## 7. Cynllun Llesiant Sir Fynwy.

Cawsom ddiweddariad ar y datblygiadau diweddaraf o ran y Cynllun Llesiant a gymeradwywyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy.

Ar ôl derbyn yr adroddiad, nodwyd y pwyntiau a ganlyn:

- Mynegwyd pryder bod pob plentyn blwyddyn 20 ar gyfartaledd yn gadael Ysgol Brenin Harri VIII fel rhywun nad yw mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ac roedd angen mynd i'r afael â'r mater hwn yn gyfannol ar draws gwahanol gyrff.

- Nodwyd bod cyfleoedd ieuenctid ar gael. Fodd bynnag, ni allai rhai plant gael mynediad iddynt oherwydd goblygiadau o ran cost. Mae angen rhoi systemau ar waith i ganiatáu i'r plant hyn gael mynediad am ddim at y cyfleoedd ieuenctid sy'n cael eu darparu.

- Mae mwy a mwy o neiniau a theidiau yn darparu gofal plant er mwyn caniatáu i'r ddau riant weithio. Dylid annog y gwasanaeth ieuenctid i ymgysylltu â'r plant hyn a darparu gweithgareddau priodol iddynt.

- Nid oes gan y Fenni ganolfan ieuenctid o fewn y dref.

- Mynegwyd pryder y gallai Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wneud mwy i ymgysylltu â'i drigolion o ran darparu tai fforddiadwy.

- Mae angen i'r Cyngor Sir sicrhau bod mwy o dai fforddiadwy yn cael eu darparu o fewn y sir.

- Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn parhau i ddatblygu atebion a arweinir gan dechnoleg.

- Mae Cynghorau Tref am fod yn rhan o strwythur Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Fe wnaethom nodi’r adroddiad;

8. **Y newyddion diweddaraf gan y Cynghorydd Sirol S. Woodhouse ynglŷn â'r cynnydd mewn perthynas â'r Grŵp Trafnidiaeth Strategol.**

Cawsom ddiweddariad llafar gan y Cynghorydd Sirol S. Woodhouse ynglŷn â chynnydd mewn perthynas â'r Grŵp Trafnidiaeth Strategol a Gorsaf Reilffordd y Fenni.

Wrth wneud hynny, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Dros y pum mlynedd nesaf, bydd Gorsaf Reilffordd y Fenni yn cael arian i wella hygyrchedd gan ddarparu gorsaf reilffordd wedi'i chynllunio ar gyfer pobl anabl a fydd hefyd yn ystyriol o ddementia.

- Dywedwyd wrth y Pwyllgor Ardal yr awgrymwyd y dylai'r Grŵp Trafnidiaeth Strategol ystyried ail-gyflunio ei gyfarfodydd gan roi mwy o bwyslais ar is-grwpiau i ymdrin â materion ardal.

- Gofynnodd Cyngor Tref y Fenni i'r Cynghorydd Sirol Woodhouse i roi'r newyddion diweddaraf i Gyngor y Dref ynghylch y Grŵp Trafnidiaeth Strategol.

Gofynnodd y Pwyllgor Ardal i'r Cynghorydd Sir Woodhouse godi'r materion canlynol yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Trafnidiaeth Strategol:

- Bod Network Rail yn rhoi amserlen bendant ar gyfer ail-ddatblygu Gorsaf Reilffordd y Fenni.

- Bod y Grŵp Trafnidiaeth Strategol yn ystyried sefydlu is-grŵp ar gyfer gogledd y sir.

- Bod y gwaith deuoli ar yr A465 yn cael ei ystyried yng nghyfarfodydd y Grŵp Trafnidiaeth Strategol yn y dyfodol.

Fe nodom y diweddariad llafar.

9. **Trafod Polisi Masnachu ar y Stryd Cyngor Sir Fynwy - cais gan y Cynghorydd Sirol S. Woodhouse.**

Rhoddodd y Cynghorydd Sirol S. Woodhouse wybod i'r pwyllgor ardal ar 24ain Awst 2019 bod uned arlwyo symudol wedi bod yn gweithredu o Sgwâr Sant Ioan a oedd wedi cael effaith ar fusnesau lleol.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Ardal Gogledd Sir Fynwy held at Gilwern Community Centre, Common Road, Gilwern, NP7 0DS on Dydd Mercher, 25ain Medi, 2019 at 1.00 pm**

Nodwyd y byddai'r mater hwn yn cael ei drafod ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio ac y byddai Polisi Masnachu ar y Stryd y Cyngor yn cael ei drafod mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Dethol Cymunedau Cryf.

Nodwyd hefyd fod ymladd wedi digwydd y tu allan i Dŷ Tafarn y Kings Arms yn ystod Gŵyl Fwyd y Fenni ar 21ain Medi 2019 ac y byddai'r Adran Drwyddedu yn cael ei hysbysu am yr ymddygiad gwael hwn.

**10. Diweddariad gan Bwyllgor Cyswllt Gogledd Sir Fynwy.**

Derbyniwyd adroddiad gan Bwyllgor Cyswllt Gogledd Sir Fynwy. Wrth wneud hynny, nodwyd y canlynol:

- Gosododd Cyngor Tref y Fenni drydydd yn ei ddosbarth yn seremoni Cymru yn ei Blodau a gynhaliwyd ar 13eg Medi 2019.
- Roedd cynllun a arweinir gan gymuned Cyngor Cymunedol Llanelly bron â chael ei gymeradwyo. Byddai copi ar gael i'w weld maes o law.

**11. Cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol.**

Cafodd cofnodion y Pwyllgor Ardal Gogledd Sir Fynwy dyddiedig 15fed Mai 2019 eu cadarnhau a'u llofnodi gan y Cadeirydd:

Wrth wneud hynny, nodwyd, o ran y ddamwain awyren ysgafn ar yr A40, bod adroddiad gan yr Awdurdod Damweiniau Awyr yn yr arfaeth.

**12. Rhaglen Waith Craffu Sir Fynwy.**

Derbyniwyd a nodwyd y Rhaglen Waith Craffu.

**13. Blaenraglen Waith Busnes y Cyngor a'r Cabinet**

Derbyniwyd a nodwyd Blaenraglen Waith Busnes y Cyngor a'r Cabinet

**14. Rhaglen Waith Pwyllgor Ardal Gogledd Sir Fynwy**

Derbyniwyd a nodwyd blaenraglen waith Pwyllgor Ardal Gogledd Sir Fynwy. Wrth wneud hynny, ychwanegwyd yr eitemau canlynol:

- I dderbyn diweddariad ar y cynnydd o ran ailddatblygu Hyb y Fenni.
- I dderbyn trosolwg o'r gefnogaeth y mae Mind Sir Fynwy yn ei darparu ar gyfer y gymuned leol.

**15. Y Cyfarfod Nesaf: Dydd Mercher 20fed Tachwedd 2019 am 1.00pm.**

Dydd Mercher 20fed Tachwedd 2019 am 1.00pm.

**The meeting ended at 2.47 pm.**

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Ardal Gogledd Sir Fynwy held at Gilwern Community Centre, Common Road, Gilwern, NP7 0DS on Dydd Mercher, 25ain Medi, 2019 at 1.00 pm**